

# Cynnwys y cyhoedd yn ystod pandemig:

Gwersi sydd wedi'u  
dysgu o wasanaeth paru  
cynnwys y cyhoedd  
COVID-19 y DU



This document is also  
available in English.

2021

# Contents

<b>Rhagair</b> .....	<b>3</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b> .....	<b>5</b>
<b>Cefndir yr adroddiad hwn</b> .....	<b>7</b>
<b>Pam i ni sefydlu gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID 19 y DU</b> .....	<b>8</b>
Yr hyn roedd gan randdeiliaid i'w ddweud.....	10
1. A oedd cynnwys y cyhoedd wedi gostwng yn sylweddol mewn ymchwil COVID-19? .....	10
2. Pam i gynnwys y cyhoedd ostwng yn sylweddol mewn ymchwil COVID-19?.....	10
3. Beth fyddai ei angen i hybu a chefnogi cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19?.....	11
<b>Sut y mae gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU yn gweithio</b> .....	<b>13</b>
<b>Cydweithredu i sefydlu'r gwasanaeth paru</b> .....	<b>15</b>
<b>Ymchwil COVID-19 y bu'r gwasanaeth paru'n ei chefnogi</b> .....	<b>17</b>
<b>Pa fath o gynnwys y cyhoedd bu'r gwasanaeth yn ei gefnogi?</b> .....	<b>18</b>
<b>Y grwpiau cynnwys y cyhoedd fu'n rhoi cefnogaeth</b> .....	<b>19</b>
<b>Sut wnaeth gweithgarwch cynnwys y cyhoedd newid mewn ymchwil COVID-19?</b> .....	<b>20</b>
<b>Beth ydyn ni wedi'i ddysgu ynglŷn â chynnwys y cyhoedd yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus?</b> .....	<b>23</b>
<b>Y bwllch yn y cyfathrebu</b> .....	<b>25</b>
<b>Y bwllch yn y wybodaeth</b> .....	<b>27</b>
<b>Y bwllch yn y cydweithredu</b> .....	<b>28</b>
Gweithio ar draws systemau .....	28
Heriau logistaidd .....	29
<b>Y bwllch yn yr arweinyddiaeth</b> .....	<b>31</b>
<b>Casgliadau</b> .....	<b>32</b>
<b>Y camau nesaf</b> .....	<b>33</b>
<b>Diolchiadau</b> .....	<b>34</b>
<b>Atodiad</b> .....	<b>35</b>

# Rhagair

Mae'n bosibl mai ymchwil heddiw ydy gofal yfory. Yn ystod pandemig byd-eang COVID-19, mae'r Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA) wedi gorfod cyflymu gwaith asesu ymchwil newydd fel y gallai'r gwaith hwn ddechrau'n gyflym heb i hynny fod ar draul safonau – gan ganiatáu iddo fod er budd mwy o bobl. Rydyn ni wedi symleiddio proses cymeradwyo ymchwil COVID-19 ac, ar yr un pryd, wedi sicrhau bod astudiaethau'n ddiogel – gan hybu ymchwil a hefyd amddiffyn y cyhoedd.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi golygu bod proffil ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn uwch nag erioed o'r blaen. Mae ymateb y gymuned ymchwil wedi bod yn drawiadol o gyflym ac, mewn llai na blwyddyn, rydyn ni eisoes yn defnyddio brechlyn effeithiol. Yn y frwydr yn erbyn COVID-19, rydw i'n hynod falch o sut y mae'r HRA wedi sicrhau bod astudiaethau brys wedi'u hadolygu a'u sefydlu'n gyflymach nag erioed, ond wedi cynnal yr un safonau uchel sydd eu hangen i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.



Yn 2020, gwnaethon ni gymeradwyo 700 o astudiaethau ymchwil carlam a chymerodd 600,000 o aelodau o'r cyhoedd ran yn yr ymchwil hon. Mae'r DU yn haeddu bod yn falch o hyn. I ddechrau, roedd cyflymder y pandemig weithiau'n golygu y cynhwyswyd y cyhoedd yn llai mewn ceisiadau ymchwil nag y bydden ni fod wedi'i hoffi. Rwyf yn fy nyled i Leni Sivey a Jim Elliott ac i holl staff yr HRA ar draws ein pum swyddfa am eu hymateb di-oed i'r her hon (sydd wedi'i werthuso yn yr adroddiad hwn).



**Mae'n rhaid i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys cleifion a'r cyhoedd. Mae angen hyn i wneud yn siŵr bod yr holl ymchwil yn bwysig, yn berthnasol ac yn dderbyniol i'r rheini y dylai fod o fudd iddyn nhw.**



Ar ddechrau'r pandemig, nododd tîm cynnwys y cyhoedd yr HRA yn gyflym fod nifer yr astudiaethau a oedd yn cynnwys y cyhoedd yn y gwaith dylunio wedi lleihau yn sylweddol. Yna, buon nhw'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y system ymchwil i gywiro hyn. Pa baen nhw heb wneud hyn, mae'n eithaf posibl y byddai llawer o astudiaethau hanfodol COVID-19 a'n helpodd i ddysgu cymaint am y feirws wedi'i chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr ymchwil mor gyflym ac mor llwyddiannus.



**Mae'r HRA wedi cefnogi ac annog y gymuned ymchwil i barhau i weithio mewn partneriaeth â chleifion a'r cyhoedd, er gwaethaf heriau'r pandemig. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hollbwysig.**



Mae ei effaith, sef rhywbeth y mae'r adroddiad pwysig hwn yn rhoi sylw iddo, yn dangos effeithiolrwydd ein dull o fynd ati i nodi'n glir yr hyn sydd ei angen i sicrhau bod ymchwil yn cael ei chymeradwyo; ac effeithiolrwydd darparu cefnogaeth ymarferol i gyflawni hyn.

Mae'r gwersi o'r gwaith hwn yn glir. Maen nhw'n dangos bod arweinyddiaeth a chydweithredu cryf ar draws y system ymchwil gyfan, gyda chefnogaeth gwybodaeth a chyfathrebu da, yn sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn chwarae ei ran mewn ymchwil llwyddiannus, waeth beth fo'r amgylchiadau.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n partneriaid a chynnig cefnogaeth fel bod cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn rhan annatod o'r broses ymchwil gyfan.

**Cadeirydd yr HRA,  
yr Athro Sir Terence Stephenson**

Yn 2020, gwnaethon ni gymeradwyo **700 o astudiaethau ymchwil carlam** a chymerodd **600,000 o aelodau o'r cyhoedd** ran yn yr ymchwil hon.

# Crynodeb gweithredol

Arweiniodd ymateb cyflym y gymuned ymchwil i'r pandemig COVID-19 at sefydlu astudiaethau newydd yn gyflymach o lawer nag y sefydlwyd astudiaethau erioed o'r blaen. Mewn ymateb i hyn, sefydlodd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA) ei wasanaeth cymeradwyo carlam ar gyfer ymchwil frys i COVID-19, a gwtogodd 90% ar linellau amser cyfartalog adolygu ymchwil.

Fis Mawrth 2020, clywodd yr HRA fod rhwydweithiau a grwpiau o gyfranwyr cyhoeddus ledled y DU wedi sylwi bod nifer y cyfleoedd i gael eu cynnwys mewn ymchwil wedi gostwng yn sylweddol. Roedd yr adborth hwn yn cydgordio â'n dadansoddiad ein hunain a oedd yn dangos bod cyfradd cynnwys y cyhoedd mewn astudiaethau ymchwil a gyflwynwyd i'w cymeradwyo wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer ymchwil COVID-19, er bod agweddau eraill ar arfer da dal ar waith. Fel rheol, mae 80% o'r ceisiadau ymchwil yn nodi bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu cynnwys; yn achos astudiaethau COVID-19 brys a gyflwynwyd ym mis Mawrth-Ebrill 2020, 22% oedd y ganran. Pan gynhaliwyd gweithdy dan arweiniad yr HRA ym mis Ebrill, cadarnhawyd bod y duedd hon mewn ymddygiad yn gyffredin ar draws y sector.

Mewn ymateb i'r gostyngiad hwn mewn cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19, buon ni'n cydweithio â sefydliadau a oedd yn bartneriaid o'r GIG, prifysgolion a'r sector elusennol i sefydlu gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU. Mae'r gwasanaeth paru'n caniatáu i ymchwilwyr sy'n cynllunio

ymchwil COVID-19 frys, sy'n gymwys ar gyfer adolygiad carlam, gael cefnogaeth i gynnwys y cyhoedd os nad oes ganddyn nhw gysylltiadau cynnwys y cyhoedd addas yn barod.

Chwe mis ymlaen, mae lefel isel cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19 wedi ailgodi i – ac wedi rhagori ar – lefel arferol cynnwys y cyhoedd ym mhob cais am gymeradwyaeth. Erbyn mis Awst 2020, 85% oedd cyfradd cynnwys y cyhoedd a nodwyd mewn ceisiadau ymchwil COVID-19. Ochr yn ochr â'r gwasanaeth paru, mae cyrff cyhoeddus eraill a chyfranwyr cyhoeddus unigol, eiriolwyr ar ran cleifion a gweithwyr proffesiynol cynnwys y cyhoedd wedi chwarae rhan hanfodol mewn cychwyn a helaethu'r sgwrs ynglŷn â chynnwys y cyhoedd yn yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn.

Mae'r pandemig wedi datgelu a gwaethygu diffyg cydnerthedd o ran cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil yn y DU, lle ceir bylchau sylweddol yn y cyfathrebu ar draws y system ymchwil

ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i'r gymuned ymchwil gynnwys y cyhoedd. Mae diffyg gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n cael ei rhannu ynglŷn â phob agwedd ar gynnwys y cyhoedd yn cyfyngu ar ei allu i ddod yn rhan graidd o'r ffordd o gynnal ymchwil yn y DU yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n 'ddymunol i'w gael'.

Penderfynodd yr HRA gymryd camau y tu hwnt i'w gylch gwaith arferol i greu'r gwasanaeth paru mewn ymateb i alw am arweinyddiaeth yn hyn o beth. Roedden ni eisiau ei gwneud yn glir ei bod yn bwysig cynnwys y cyhoedd, bod disgwyl hyn a'i fod yn bosibl, hyd yn oed mewn argyfwng iechyd cyhoeddus. Mae'r ymdrech gydweithredol i'w sefydlu a'i redeg wedi dangos bod y system yn gallu ymateb yn briodol i gefnogi cynnwys y cyhoedd

yn gymesur ac yn effeithiol, waeth beth fo'r amgylchiadau. Dangoswyd y gallai cynnwys y cyhoedd ddod yn 'fusnes fel anarfer' cyn belled â bod yna gydweithredu, cyfathrebu a gwybodaeth system-eang, effeithiol ar waith.

Os y gellir cynnal hynny, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai cynnwys y cyhoedd fod yn fusnes fel arfer i noddwyr ac arianwyr yr holl ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Mae'r HRA wedi ymrwmo i egluro'r hyn a ddisgwylir o ran cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y ceisiadau y mae'n eu hadolygu, ac i gydweithio â'n partneriaid i hybu a chefnogi cynnwys o ansawdd uchel, cynhwysol ar draws y system ymchwil.



# Cefndir yr adroddiad hwn

Cynnwys y Cyhoedd yw'r enw ar sefyllfa lle bo cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn gweithio mewn partneriaeth â thimau ymchwil ac yn defnyddio'u profiad personol i gyfrannu at ddylunio, rheoli, dadansoddi neu ledaenu darganfyddiadau ymchwil.

Wrth ddefnyddio'r term 'cynnwys y cyhoedd', nid cyfeirio ydyn ni at gymryd rhan mewn ymchwil a chyfrannu data fel cyfranogwr mewn astudiaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cefndir a'r rhesymeg dros sefydlu gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU. Mae'n myfyrio ynglŷn â'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu am gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus, o safbwynt corff rheoleiddio sy'n gweithio i gefnogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol COVID-19.

Nid yw cynnwys y cyhoedd yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer ymchwil y mae'r HRA yn ei rheoleiddio yn y DU, ond mae'n arfer da disgwylidig. Mae **Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn datgan mai'r arfer da gofynnol ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU yw bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn cael eu cynnwys mewn dylunio, rheoli, cynnal a lleadaenu darganfyddiadau ymchwil.

Mae hyn oherwydd bod cynnwys y cyhoedd yn ystyrion yn gallu sicrhau bod ymchwil **yn fwy moesegol** ac yn rhoi sicrwydd i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil, a'i fod yn gallu arwain at **recriwtio mwy o bobl i'r astudiaeth a'u cadw**.

Mae'n bwysicach cynnwys y cyhoedd nawr nag erioed o'r blaen. Yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus na welwyd mo'i fath o'r blaen, mae'n hanfodol bod ymchwil y DU o'r ansawdd uchaf, a bod cynnwys y cyhoedd yn offeryn craidd i gyflawni hyn. Mae cynnwys y cyhoedd yn dda yn gallu helpu i sefydlu ymchwil o ansawdd uchel yn gyflym trwy oresgyn rhwystrau rhag recriwtio a chadw cyfranogion mewn ymchwil – sy'n gallu bod yn anodd mewn argyfwng iechyd cyhoeddus.

# Pam i ni sefydlu gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID 19 y DU

Gwelwyd gostyngiad enbyd mewn cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil ar ddechrau'r pandemig.

Mewn amgylchiadau arferol, mae cleifion a'r cyhoedd yn cael eu cynnwys mewn dylunio, rheoli neu ledaenu darganfyddiadau 80% o'r ymchwil y mae'r HRA yn ei hadolygu, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2020, cafwyd gostyngiad yn y gyfran hon i ddim ond 22% o'r ceisiadau ymchwil roedd yr HRA yn eu hadolygu.<sup>1</sup>

Dywedodd ymchwilwyr wrthon ni yn eu ceisiadau am Gymeradwyaeth yr HRA na fydden nhw'n gallu dod o hyd i bobl â phrofiad personol perthnasol a gweithio gyda nhw er budd eu hymchwil. Hanner yr amser, dywedodd pobl wrthon ni fod hyn oherwydd na fyddai yna ddigon o amser i wneud hynny; yn eu geiriau eu hunain:



**'Oherwydd baich byd-eang Covid-19, byddai cychwyn cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd yn achosi oedi â chyflenwi gwasanaeth gofal iechyd.'**

**'Oherwydd natur gyflym sefydlu a chyflwyno ymchwil, nid ydyn ni wedi mynd ati i gynnwys aelodau'r cyhoedd yn y broses hon.'**

**'Oherwydd cyflymder amser cyflawni a'r ffaith nad ydyn ni'n gallu cyfarfod â grwpiau cynnwys cleifion a'r cyhoedd oherwydd y cyfyngiadau ar symud, nid ydyn ni wedi gallu cynnwys cleifion mewn cyfarfod ffurfiol.'** - Datganiadau a wnaed mewn ceisiadau am Gymeradwyaeth yr HRA a adolygwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020.



<sup>1</sup> Ar sail atebion i A14-1 (y cwestiwn ynglŷn â chynlluniau cynnwys y cyhoedd) ar ffurflen gais IRAS, mewn sampl gynrychioliadol o 100 o geisiadau a gyflwynwyd i'r HRA ym mis Hydref 2019 a sampl o 40 o geisiadau a gyflwynwyd trwy'r gwasanaeth cymeradwyo carlam ym mis Mawrth ac ar ddechrau mis Ebrill 2020.



Sefydlwyd astudiaethau ledled y DU mewn ffracsiwn o'r amser y bydden nhw fel rheol yn cael eu sefydlu, oherwydd bod pobl yn cydweithio ar draws y sector. Gwnaeth yr HRA roi gwasanaeth cymeradwyo carlam ar waith er mwyn cyflymu'r adolygiad rheoleiddiol o ymchwil COVID-19 frys **a gwtogodd 90% ar linellau amser cyfartalog adolygu ymchwil** o 62 i 5 diwrnod i gael Cymeradwyaeth yr HRA.

Fodd bynnag, nid oedd y system ymchwil yn sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn parhau i fod yn rhan graidd o'r ymchwil yr oedd yn gyfrifol am ei sefydlu. Roedden ni eisiau helpu i amddiffyn a hybu cynnwys y cyhoedd yn yr ymchwil honno, er mwyn sicrhau ei bod o'r ansawdd uchaf posibl ac mor gyfrifol â phosibl.



**'Dwi'n meddwl y dylid eich llongyfarch am gamu i mewn i'r adwy gan nad oedd hon yn sefyllfa arferol, er bod y delfrydau yno ac er ein bod ni eisiau glynu atyn nhw gymaint â phosibl. Ac fe allech chi fod wedi eistedd yn ôl a dweud wel, gadewch i ni aros, gadewch i ni ymgynghori, gadewch i ni ddilyn ein pregeth ein hunain; doedd hi mo'r amser, doedd hi mo'r foment a gwnaethoch chi gymaint ag y gallech.'** – Arweinydd Cynnwys y Cyhoedd Prifysgol/ GIG



Gwnaethon ni gynnal gweithdy ym mis Ebrill 2020 gyda hwyluswyr cynnwys y cyhoedd o elusennau, Ymddiriedolaethau GIG, rheoleiddwyr, prifysgolion, cyfleusterau ymchwil glinigol a chyrrff annibynnol, er mwyn trafod:

**1. A oedd cynnwys y cyhoedd wedi gostwng yn sylweddol mewn ymchwil COVID-19 drwedd draw?**

Os felly,

**2. Pam i gynnwys y cyhoedd ostwng yn sylweddol mewn ymchwil COVID-19?**

A

**3. Beth gellid ei wneud i hybu a chefnogi cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19?**



# Yr hyn roedd gan randdeiliaid i'w ddweud

## 1. A oedd cynnwys y cyhoedd wedi gostwng yn sylweddol mewn ymchwil COVID-19?

Cadarnhaodd y rheini a fynychodd y gweithdy fod y ceisiadau arferol i hwyluso cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil wedi gostwng yn sylweddol. Roedd y cyswllt y byddai hwyluswyr cynnwys y cyhoedd fel rheol yn ei dderbyn oddi wrth dimau ymchwil i drefnu mewnbwn cleifion a'r cyhoedd i'w hastudiaeth naill ai wedi stopio, neu roedd yn digwydd yn hwyr yn y broses datblygu ymchwil pan fo'n llai dichonol i gleifion a'r cyhoedd gyfrannu'n ystyrllon at ddylunio ymchwil.

## 2. Pam i gynnwys y cyhoedd ostwng yn sylweddol mewn ymchwil COVID-19?

Yn sgil dechrau'r pandemig COVID-19 byd-eang ym mis Mawrth 2020, daeth her na welwyd mo'i bath o'r blaen i sector ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol y DU. Yn ystod y bygythiad mwyaf enbyd i iechyd cyhoeddus y mae'r GIG erioed wedi'i weld, addasodd y gymuned ymchwil i weithio o bell, i ddiffygion mewn adnoddau ac i gyfnod clo cenedlaethol, a llwyddodd i sefydlu ymchwil COVID-19 hanfodol mewn ffrasiwn o'r fframiau amser arferol. Roedd hyn hefyd yn golygu bod angen mynd ati i gynnwys y cyhoedd mewn dylunio ymchwil o fewn amserlenni cul.

Fodd bynnag, un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy oedd mai un o'r rhesymau craidd pam roedd cynnwys y cyhoedd wedi gostwng mor sylweddol oedd oherwydd bod timau ymchwil, i bob golwg, yn gwneud cyfres o dybiaethau anghywir ynglŷn â chynnwys y cyhoedd yn ystod pandemig.

Yn eu plith oedd:

- ni fyddai cyfranwyr cyhoeddus mor frwdfrydig neu ar gael i gyfrannu at ymchwil yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus dwys;
- ni fyddai grwpiau cynnwys y cyhoedd yn gweithio oherwydd yr amhariad eithafol ar eu ffyrdd arferol o weithio;
- ni fyddai yna ddigon o amser i gynnwys y cyhoedd yn ystyrllon o fewn llinellau amser cyflymach i sefydlu astudiaeth.

Pwysleisiodd y rheini a fynychodd y gweithdy nad oedd y tybiaethau hyn yn adlewyrchu'n fanwl gywir yr hyn a oedd yn digwydd yn y gymuned cynnwys y cyhoedd.

Yn union fel roedd llawer o ymchwilwyr a hwyluswyr cynnwys y cyhoedd yn ymdopi â bod yn sâl, yn bod ar ffyrlo, yn cael eu gwarchod, yn cael eu hadleoli, yn gofalu am eraill, yn gwirfoddoli yn eu cymunedau lleol, neu gyfuniad o nifer o'r ffactorau hyn, roedd cyfranwyr cyhoeddus hefyd yn gweld pwysau tebyg ar eu hamser a'u hegni. Fodd bynnag, yn yr un ffordd ag y gwnaeth y system ymchwil gyfan fwstro mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19, roedd cleifion, gofaluwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill o'r cyhoedd yr un mor frwdfrydig a pharod i roi o'u hamser a'u hegni i'r ymdrech ymchwil.

Roedd hi'n llai posibl cynnwys rhai cyfranwyr cyhoeddus oherwydd natur rithwir y prosiectau, eu bod yn sâl, eu bod yn gwirfoddoli, eu bod wedi colli incwm neu eu bod yn gofalu am eraill. Fodd bynnag, dywedodd y rheini a fynychodd y gweithdy fod gan y rheini a oedd yn cael eu gwarchod, a oedd ar ffyrlo neu'n gweithio o gartref fwy o amser a

hyblygrwydd i gael eu cynnwys mewn ymchwil nag a fyddai ganddyn nhw fel rheol.

Roedd grwpiau a rhwydweithiau cynnwys y cyhoedd wedi addasu'n gyflym i heriau gweithio yn ystod cyfnod clo cenedlaethol, gan newid i weithio o bell a chynnull paneli adolygu cyflym â'r cymhelliant, y profiad a'r argaeledd i ddarparu mewnbwn cyhoeddus cyflym, ystyrllon i astudiaethau COVID-19. Pwysleisiodd y mynychwyr yr amgyffrediad cyffredin bod cynnwys y cyhoedd yn rhywbeth sy'n 'ddymunol i'w gael' yn hytrach nag yn rhan graidd o'r broses ymchwil. Gwnaethon nhw awgrymu mai'r agwedd hon tuag at gynnwys y cyhoedd oedd y rheswm pam ei fod wedi'i hepgor o gyfnod sefydlu ymchwil pan ddaeth y system dan bwysau dwys.

### 3. Beth fyddai ei angen i hybu a chefnogi cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19?

Gwnaethon ni gytuno bod angen i ni gyfleu'r neges yn eang ac ar lefel uchel bod cynnwys y cyhoedd yn bwysig yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus, a bod seilwaith cynnwys y cyhoedd wedi addasu a'i fod ar gael i ddarparu mewnbwn cymesur, ystyrllon i sicrhau bod ansawdd ymchwil COVID-19 mor uchel â phosibl.

Nodwyd y negeseuon allweddol a ganlyn trwy'r gweithdy:

- **Mae hi bob amser yn bwysig cynnwys y cyhoedd, mae disgwyl hyn ac mae'n bosibl;** mae yna gefnogaeth ar gael i ymchwilwyr
- **Mae angen arweinyddiaeth a chyfathrebu clir a chyson arnon ni,** gyda pherchnogaeth sylweddol a negeseua ar draws y system ymchwil ledled y DU
- **Mae angen i'n datrysiadau fod yn llyfn ac yn hyblyg**
- **Mae'n hollbwysig** bod cymuned gyfan cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol **yn cydweithio ar draws y system**

Gwnaethon ni gydnabod bod yna fwlch yn y cyfathrebu rhwng timau ymchwil a hwyluswyr cynnwys y cyhoedd, gan nad oedd y naill na'r llall nawr yn gallu cyfathrebu cystal yn glân â'r gefnogaeth cynnwys y cyhoedd a oedd ei hangen, a'r hyn a oedd ar gael.



## 'Doedd neb yn ymchwilydd COVID-19 y llynedd' – Ymchwilydd, y GIG



Roedd cynnwrf sefydlu ymchwil COVID-19 yn golygu bod y timau ymchwil a ymatebodd i alwadau i sefydlu astudiaethau brys yn dod o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd proffesiynol nag arfer. Roedd hynny'n golygu bod timau â chefnidir mewn datblygu brechlynnau mewn labordy, er enghraifft, yn fwy tebygol o fod yn newydd i gynnwys y cyhoedd, a'u bod o bosibl yn llai ymwybodol o sut i gael gafael mewn cefnogaeth a oedd yn bodoli ar gyfer cynnwys y cyhoedd oddi mewn i'w sefydliadau eu hunain neu sefydliadau cyswllt. Mae'n debygol bod y gwendidau a oedd yn bodoli o ran darparu adnoddau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a'r ffordd o sicrhau bod hyn yn rhan annatod o brosesau a strwythurau datblygu ymchwil o fewn sefydliadau noddi, wedi achosi rhywfaint o'r methiant hwn mewn cyfathrebu.

Dygodd y rheini a fynychodd y gweithdy sylw at y ffaith nad oedd yna arweinyddiaeth glir, gyson a oedd yn manylu ar yr hyn a ddisgwylir o ran cynnwys y cyhoedd yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus. Gwnaethon nhw alw am gydweithredu DU-eang ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol i oresgyn y rhwystrau rhag cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ystyrllon ac yn gyson ym mhob ymchwil. Gwnaethon ni gytuno y byddai'n rhaid i fenter o'r fath fod yn effeithlon, yn gydweithredol ac osgoi dyblygu adnoddau neu wasanaethau a oedd eisoes yn bodoli.

Mewn ymateb i hyn, **gwnaethon ni sefydlu gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU**, sy'n helpu i hwyluso cynnwys y cyhoedd yn ystyrllon mewn ymchwil COVID-19 trwy gysylltu timau ymchwil â grwpiau cynnwys y cyhoedd sy'n bodoli.



# Sut y mae gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU yn gweithio

Mae'r gwasanaeth paru'n plethu â gwasanaeth cymeradwyo carlam yr HRA ar gyfer ymchwil iechyd cyhoeddus brys. Mae hyn yn cyflymu gwaith adolygu ceisiadau ymchwil COVID-19 fel bod modd sefydlu astudiaethau yn gyflym ac yn gyfrifol, [gan gwtogi 90% ar linellau amser adolygu](#).

Gall ymchwilwyr y mae eu hastudiaethau'n galw am Gymeradwyaeth yr HRA ac sy'n gymwys ar gyfer adolygiad carlam hefyd ofyn am gefnogaeth i ddod o hyd i fewnbwn cyhoeddus addas os nad oes ganddyn nhw gysylltiadau eisoes ag unrhyw grwpiau addas.

Mae'r tîm sy'n hwyluso'r gwasanaeth paru'n cynnwys Tîm Cynnwys y Cyhoedd yr HRA (Jim Elliott a Leni Sivey), Annie Amjad o Parkinson's UK, Jenny Robertson o'r Gymdeithas Sglerosis Ymledol, ynghyd â chydweithwyr Cymeradwyaeth yr HRA a phartneriaid y gwasanaeth paru.

Mae tîm cynnwys y cyhoedd yr HRA yn trefnu galwad i frysennu ag ymchwilwyr os ydyn nhw wedi gwneud cais am gefnogaeth, ac yn gofyn iddyn nhw ddarparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am eu hastudiaeth (mae templed o'r ffurflen ceisio cefnogaeth a'r canllawiau i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn). Mae ymchwilwyr yn rhoi crynodeb byr o'u hymchwil mewn iaith glir ac yn amlinellu'r amserlen y maen nhw'n gweithio iddi. Rydyn ni'n defnyddio **Egwyddorion Arfer Gorau'r HRA ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil** er

mwyn trafod y math o gynnwys y cyhoedd a fyddai o'r budd mwyaf, gan ddibynnu ar y math o ymchwil a'r cyfnod y mae ynddo yn y broses ddatblygu. Rydyn ni'n siarad am sut y dylid cynnwys llawer o bobl, yr hyn y bydd galw iddyn nhw ei wneud, a pha fath o brofiad personol neu sgiliau sy'n berthnasol i hyn. Rydyn ni hefyd yn darparu canllawiau ar sut i gofnodi'r wybodaeth hon ar ffurflen gais **IRAS** fel bod Pwyllgorau Moeseg Ymchwil yn gallu deall y sicrwydd moesegol roedd cynnwys y cyhoedd wedi'i ddarparu ynglŷn â'r ymchwil.

Rydyn ni'n gofyn a fydd cyfranwyr cyhoeddus yn cael cynnig tâl am eu hamser, a fydd unrhyw dreuliau a ddaw i'w rhan yn cael eu talu neu eu had-dalu, ac a fydd ymchwilwyr yn darparu gwybodaeth ddilynol ynglŷn â sut y mae mewnbwn cyfranwyr cyhoeddus yn gwneud gwahaniaeth i'r ymchwil, ac yn gwahodd adborth ar eu profiad o weithio gyda'r tîm ymchwil.

Rydyn ni'n esbonio barn yr HRA bod yr holl bethau hyn yn arfer da craidd ar gyfer gweithgareddau cynnwys y cyhoedd, ond nad oes eu hangen arnon ni i rannu'r

cyfle cynnwys â phartneriaid annibynnol y gwasanaeth paru. Mae hyn yn caniatáu i grwpiau cynnwys y cyhoedd unigol ddal at eu ffyrdd eu hunain o weithio a'u cylch gorchwyl.

Rydyn ni'n rhannu'r ffurflen ceisio cefnogaeth wedi'i llenwi â phartneriaid y gwasanaeth paru sydd wedi ymuno â'r gronfa ddata o grwpiau sydd â diddordeb mewn cael ymchwilydd yn cysylltu â nhw ynglŷn â chyfleoedd cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19. Mae'r cysylltydd ar gyfer pob grŵp yn adolygu'r wybodaeth gwyno ynglŷn â'r ymchwil i benderfynu a yw'n berthnasol

ac yn addas i'w grŵp nhw ai peidio. Os yw'n berthnasol ac yn addas, ac os ydyn nhw'n gallu hwyluso cynnwys y cyhoedd, maen nhw'n cysylltu â'r ymchwilydd yn uniongyrchol i drafod hyn ymhellach neu i gynnig cefnogaeth.

Mae'r tîm ymchwil yn penderfynu pa grŵp/ grwpiau i weithio â nhw, ac mae'r cysylltiadau enwebedig ar gyfer y tîm ymchwil a'r grŵp cynnwys yna'n cysylltu i drefnu'r gweithgaredd cynnwys ar-lein, a gynhelir trwy e-bost neu fideo-gynhadledd.

**1. Ymchwilydd yn gofyn am gefnogaeth (trwy gysylltu â'r HRA trwy [fast.track@hra.nhs.uk](mailto:fast.track@hra.nhs.uk))**

**2. Tîm cynnwys y cyhoedd yr HRA yn darparu ffurflen ceisio cefnogaeth ac yn trefnu galwad frysbenneu**

**3. Ymchwilydd a thîm cynnwys y cyhoedd yr HRA yn trafod pa fath o gynnwys fyddai'r mwyaf addas ac yn addasu'r ffurflen ceisio cefnogaeth lle bo angen**

**4. Tîm cynnwys y cyhoedd yr HRA yn dosbarthu'r ffurflen ceisio cefnogaeth i bartneriaid y gwasanaeth paru (cysylltwyr a restrir ar y gronfa ddata)**

**5. Partneriaid y gwasanaeth paru'n adolygu'r ffurflen ceisio cefnogaeth ac yn cysylltu â'r ymchwilydd i drafod ymhellach/ i gynnig cefnogaeth cyn cysylltu â'u haelodau**

# Cydweithredu i sefydlu'r gwasanaeth paru

Yn dilyn [datganiad o fwriad](#) yr HRA ynglŷn â chynnwys y cyhoedd mewn ymchwili COVID-19, lansiodd y gwasanaeth paru'n swyddogol trwy nifer o sianeli cyfathrebu yn ystod wythnos gyntaf mis Mai, a oedd yn cynnwys [blog](#) gan Bec Hanley a Maryrose Tarpey, cyfrif Twitter yr HRA, cylchlythyr diweddaraf yr HRA, a bwletinâu rhwydwaith CHAIN.

Roedd yn hanfodol cael cefnogaeth cyrff cyhoeddus eraill; bu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR), Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, y Gymdeithas Elusennau Ymchwil Feddygol, Prifysgolion y DU, Cyngor Biofoeseg Nuffield, Academi'r Gwyddorau Meddygol, Ymddiriedolaeth Wellcome, Cymdeithas Feddygol Prydain a'r Awdurdod Meinwe Dynol yn arwain gwaith hybu gwybodaeth am y gwasanaeth ar draws y system ymchwil.

Mae partneriaid o'r sector elusennol wedi cefnogi gwaith dylunio, lansio, rheoli a gwerthuso'r gwasanaeth paru. Ni fyddai wedi bod yn ddichonol lansio'r gwasanaeth heb eu harbenigedd nhw.

Gwnaethon ni wahodd mwy na 100 o grwpiau a rhwydweithiau cynnwys y cyhoedd i ychwanegu eu gwybodaeth at gronfa ddata rhwydwaith y gwasanaeth paru er mwyn clywed am y cyfleoedd i gleifion a'r cyhoedd gyfrannu at ymchwil gyflymach i COVID-19. Ers hynny, mae 56 o grwpiau, sy'n cynrychioli 47 o sefydliadau lletyol wedi ymuno â'r rhwydwaith.




Mae'r grwpiau yn bennaf yn Lloegr ac maen nhw'n cael eu rhedeg gan brifysgolion, elusennau, Ymddiriedolaethau GIG, cyfleusterau ymchwil glinigol a chyrff cyhoeddus. Rhaeadrodd yr NIHR wybodaeth am y gwasanaeth o fewn ei strwythurau cynnwys y cyhoedd mewnol, ac roedd cyfranogiad Gwasanaeth Dylunio Ymchwil yr NIHR a'i Ganolfannau Ymchwil Fiofeddygol yn arbennig o uchel.

Un o'r egwyddorion craidd wrth gefn gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU yw rhannu gwybodaeth yn gyfrifol ac yn dryloyw.

Mae pob aelod o weithle **Rhwydwaith Ymarferwyr Ymgysylltu Cenedlaethol** ar **blatfform cydweithredu FutureNHS** yn cael gweld cronfa ddata'r gwasanaeth paru. Mae aelodaeth o'r gweithle ar agor i bob ymarferydd cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Gwnaethon ni ddatblygu ffurflen i ychwanegu gwybodaeth at y gronfa ddata gyda mewnbwn ymarferwyr cynnwys y cyhoedd a chyngor arbenigol ar y wybodaeth ddemograffig i ofyn amdani ynglŷn â chyfranwyr cyhoeddus, ac ynglŷn â sut i wneud hyn, er mwyn i ni fod â'r wybodaeth iawn i baru timau ymchwil â'r grwpiau mwyaf perthnasol, heb orlethu rheolwyr cynnwys y cyhoedd a oedd yn ychwanegu eu grŵp at y gronfa ddata.



Ffig. 1: Lleoliadau partneriaid y gwasanaeth paru (mae lleoliadau lle ceir dyblygiad wedi'u tynnu)



# Ymchwil COVID-19 y bu'r gwasanaeth paru'n ei chefnogi

Mae'r ceisiadau am gefnogaeth cynnwys y cyhoedd y derbyniodd y gwasanaeth paru wedi adlewyrchu amrywiaeth yr ymchwil COVID-19 sydd wedi'i sefydlu ers dechrau'r pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi astudiaethau y bu cwmnïau fferyllol a sefydliadau ymchwil ar gontract, cyrff cyhoeddus, Ymddiriedolaethau GIG a phrifysgolion yn eu rhedeg.

Mae'r astudiaethau hyn yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o gwestiynau ymchwil, gan gynnwys darganfod mwy am adweithiau imiwn i'r haint, archwilio triniaethau penodol ac ymchwilio i ble a sut y mae COVID-19 yn bresennol mewn gwahanol rannau o'r corff. Mae mwyafrif

yr astudiaethau hyd yma wedi bod naill ai'n dreialon clinigol neu'n astudiaethau sy'n defnyddio samplau meinwe dynol a data yn unig.

Roedd gan rai ymgeiswyr brofiad blaenorol o gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn eu hymchwil ond, oherwydd rhesymau amrywiol, nid oedden nhw'n gallu gweithio gyda'u cysylltiadau arferol. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn gymharol newydd i weithio mewn partneriaeth â chleifion a'r cyhoedd.



# Pa fath o gynnwys y cyhoedd bu'r gwasanaeth yn ei gefnogi?

Mae ceisiadau am gymeradwyaeth yr HRA a rheoleiddwyr eraill yn digwydd tuag at ddiwedd y broses datblygu ymchwil, unwaith y mae'r nawdd a'r cyllid wedi'u trefnu.

Mae cefnogaeth y gwasanaeth paru ar gael ar gyfer astudiaethau yn unrhyw gam o'r broses cyn belled â'u bod, neu y byddan nhw'n gymwys ar gyfer adolygiad carlam yr HRA. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth paru'n derbyn ceisiadau am gefnogaeth yn bennaf jest cyn cyflwyno'r cais am adolygiad Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr HRA. Mae mwyafrif y bobl yn bwriadu defnyddio'r gwasanaeth i weithio gyda chleifion a'r cyhoedd cyn cyflwyno'u cais i'r HRA ar gyfer adolygiad moeseg. Gwneir hyn fel bod modd rhoi newidiadau ar waith i wella protocol yr astudiaeth neu'r wybodaeth ar gyfer cyfranogion heb amharu ar y broses adolygu rheoleiddiol.

Roedd y cyfuniad o'r ddau ffactor hyn gyda'r llinellau amser sefydlu astudiaeth yn gyflymach ar gyfer ymchwil COVID-19 yn golygu bod angen i nifer o'r astudiaethau roedd y gwasanaeth yn eu cefnogi gael mewnbwn o fewn un wythnos o'r sgwrs frysbenneu

gychwynnol. Mae mwyafrif y timau ymchwil hyd yma wedi ceisio mewnbwn grwpiau cynnwys y cyhoedd o fewn 10 diwrnod. Mae astudiaethau a gysylltodd â ni yn gynharach yn y broses datblygu ymchwil wedi gallu cynllunio i gael hyd at 6 wythnos ar gyfer sicrhau mewnbwn cleifion a'r cyhoedd.

Roedd mwyafrif yr astudiaethau a gefnogwyd trwy'r gwasanaeth paru'n canolbwyntio ar ddilysu p'un a oedd y cwestiwn ymchwil yn bwysig i'r darpar gyfranogwyr, p'un a oedd y fethodoleg arfaethedig yn dderbyniol a ph'un a oedd gwybodaeth ar gyfer y cyfranogwyr yn glir ac wedi'i hysgrifennu mewn modd addas.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi bwriadu sefydlu mecanweithiau cynnwys y cyhoedd yn barhaus ar gyfer eu hastudiaethau ond roedd eraill, i ddechrau, heb fwriadu gwneud hyn y tu hwnt i'r cyfnod sefydlu.

# Y grwpiau cynnwys y cyhoedd fu'n rhoi cefnogaeth

Cynhwyswyd tua 13 o grwpiau cynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol mewn gweithgareddau o ganlyniad i'r gwasanaeth paru'n cysylltu â nhw (ar sail gohebiaeth rhwng grwpiau cynnwys y cyhoedd a thimau ymchwil roedd yr HRA wedi cael copi ohoni, yn unol â phroses y gwasanaeth paru).

Gwnaeth grwpiau a rhwydweithiau roedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon a'r Awdurdod Ymchwil Iechyd yn eu rhedeg hwyluso cynnwys y cyhoedd, ac roedd Cymuned Cynnwys y Cyhoedd Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n arbennig o barod i addasu ac yn ymatebol i anghenion y gwasanaeth. Roedd grwpiau a oedd naill ai wedi arolygu eu haelodaeth bresennol i nodi pobl â phrofiad personol o COVID-19 yn gallu ymateb yn fwy hyderus i alwadau am fewnbwn ar y sail hwn, fel grwpiau roedd Ysbytai Prifysgol Nottingham, Canolfan Ymchwil Fiofeddygol Leeds yr NIHR, Uned Ymchwil Gwaed a Thrawsblaniadau mewn Iechyd Rhoddwyr Rhydychen ac Ymchwil Data Iechyd y DU yn eu rhedeg.

Er bod rhyw bumed rhan o'r grwpiau a oedd wedi cofrestru ar y rhwydwaith yn grwpiau elusennol, dim ond un o'r tri ar ddeg o grwpiau a gafodd eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses baru oedd â'i sail mewn elusen. Efallai fod hyn oherwydd bod y grwpiau elusennol yn

fwy tebygol o fod â ffocws ar heintiau penodol yn hytrach na ffocws cyffredinol, yn wahanol i lawer o grwpiau â'u sail mewn Ymddiriedolaethau GIG a chanolfannau ymchwil fiofeddygol. Rhoddwyd llawer o gydweithwyr yn y sector elusennol ar ffyrlo ac roedd eu sefydliadau'n wynebu heriau enbyd o ran adnoddau yn ystod y pandemig, a oedd yn golygu nad oedd eu seilwaith cynnwys y cyhoedd yn gallu ymateb cystal i geisiadau am gefnogaeth â'u cydweithwyr â'u sail yn y GIG.



# Sut wnaeth gweithgarwch cynnwys y cyhoedd newid mewn ymchwil COVID-19?

Dros amser, cynyddodd gweithgarwch cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19 yn sylweddol.

Mae ein dadansoddiad blynyddol o ddata o sampl mis Hydref 2019 o 100 o geisiadau, sy'n cynrychioli ehangder ymchwil y mae'r HRA yn ei rheoleiddio, yn dangos bod 80% o'r ymgeiswyr yn dweud wrthon ni eu bod naill ai wedi, neu y byddan nhw'n cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn eu hymchwil mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, dan amgylchiadau arferol. Roedd sampl o'r 40 cais COVID-19 cyntaf a oedd yn gymwys ar gyfer adolygiad moesegol carlam ym mis Mawrth 2020 yn awgrymu bod y ganran hon wedi gostwng i 22% yn unig. Fodd bynnag, erbyn mis Mehefin roedd y lefel wedi ailgodi i 52% ac, yn sampl mis Awst o geisiadau COVID-19, roedd lefelau cynnwys y cyhoedd y defnyddiwyd y metrig hwn i'w mesur wedi codi i 85% - cyfradd uwch na'n llinell sylfaen cyn y pandemig.

Mae'n debygol bod y cynnydd sylweddol hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau. Roedd yn glir mewn cyfathrebiadau ynglŷn â'r gwasanaeth paru nad yw'r gwasanaeth paru yn rhagofyniad ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth cymeradwyo carlam, gan nad yw cynnwys y cyhoedd yn ofyniad cyfreithiol. Fodd bynnag, roedd adborth oddi wrth ymgeiswyr a hwyluswyr cynnwys y cyhoedd yn awgrymu bod dehongliad rhai rhanddeiliaid o'r anogaeth a'r gefnogaeth gref ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn golygu ei fod yn orfodol.

Llaciwyd y llinellau amser ar gyfer astudiaethau a oedd yn galw am adolygiad cyflymach hefyd rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Roedd hyn yn caniatáu mwy o amser i gychwyn neu ailsefydlu cysylltiadau cynnwys y cyhoedd, fel bod pawb oedd a wnelo â'r broses yn gallu addasu i ffyrdd newydd o weithio, ac fel bod y sgwrs ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd cyhoeddus yn gallu mynd o nerth i nerth. Gwnaeth yr NIHR ymrwymiad cyhoeddus i gynnwys y cyhoedd yn ystod y pandemig a chyhoeddodd ganllawiau ar sicrhau bod ymchwil COVID-19 yn gynhwysol, cyhoeddodd Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) argymhellion polisi ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19 a chynhaliodd Academi'r Gwyddorau Meddygol, yr NIHR, ABPI, a'r Gymdeithas Elusennau Ymchwil Feddygol weithdy i fyfyrion ynglŷn â'r cyfleoedd i ddatblygu gwaith cynnwys y cyhoedd ledled y system. Mae cyfranwyr cyhoeddus unigol, eiriolwyr dros gleifion a gweithwyr proffesiynol cynnwys y cyhoedd hefyd wedi chwarae rhan hanfodol mewn cychwyn a helaethu'r sgwrs ynglŷn â chynnwys y cyhoedd yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus.

Yn ôl timau ymchwil a ddefnyddiodd y gwasanaeth paru, roedd yn diwallu anghenion eu hymchwil ac roedden nhw'n gallu ymgorffori adborth yn eu cynigion:



**'Roedd y profiadau i gyd yn bositif. Roedden nhw'n gyflym iawn. Cafwyd adborth da iawn ohonyn nhw; adborth y gallwn ni ei ymgorffori'** - Rheolwr Treial, cwmni fferyllol

**'Mae'n edrych yn hynod ffafriol o ran y Pwyllgor Moeseg, ac o ran y noddwr hefyd. Rydyn ni'n hapus iawn i ni ddefnyddio'r gwasanaeth oherwydd, yn y pen draw, mae'r treialon hyn ar gyfer cleifion, felly os nad ydyn nhw'n hawdd i'w darllen dydyn nhw ddim yn hawdd i'w defnyddio, ac maes o law mae'n effeithio ar ein strategaethau recriwtio a chadw hefyd'** – Rheolwr Treial, cwmni fferyllol



Er i ni ddarganfod bod y rhan fwyaf o'r gwaith cynnwys y cyhoedd a gefnogwyd trwy'r gwasanaeth paru'n canolbwyntio ar ddichonoldeb a derbynoldeb yr ymchwil, roedd y gweithgarwch cynnwys y cyhoedd yr adroddwyd arno yn sampl mis Awst o geisiadau'n sylweddol fwy na hynny:



**'Mae'r cyfrannwr cyhoeddus yn mynychu cyfarfodydd misol ynglŷn â chynnydd yr astudiaeth ar hyn o bryd, lle rydyn ni'n trafod y wybodaeth ddiweddaraf, materion sy'n galw am sylw a chyfeiriad yr astudiaeth yn y dyfodol. Bydd y cyfrannwr cyhoeddus hefyd yn cynnig cyngor/ cefnogaeth i'r ymchwilwyr ar gyfer nodi themâu o drawsgrifiadau cyfweiliadau fel rhan o'r dadansoddiad thematig. Bydd yn cymryd rhan mewn lledaenu darganfyddiadau i'r gymuned cynnwys ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ehangach trwy gyflwyno'r darganfyddiadau.'**

**'Mae'r grŵp cynnwys y cyhoedd wedi cyfrannu at ddylunio'r protocol, gan gadarnhau bod angen ymchwil i'r maes. Maen nhw wedi adolygu dogfennaeth i'w defnyddio ar gyfer yr astudiaeth ac wedi cefnogi'r cynnig am grant i'r NIHR trwy gynhyrchu crynodebau lleyg. Bydd y grŵp yn cyfrannu at ddylunio a fformatio gweithgareddau lledaenu a byddwn ni'n gofyn iddyn nhw fyfyrion ynglŷn â'u rôl a rhannu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu fel rhan o'n cynllun lledaenu cyffredinol.'** - Datganiadau a wnaed mewn ceisiadau am Gymeradwyaeth yr HRA a adolygwyd ym mis Awst 2020.



Wrth ddewis peidio â chynnwys cleifion a'r cyhoedd, gwnaeth rhesymau'r ymgeiswyr i gyfiawnhau hyn hefyd newid dros amser. Ym mis Mawrth, awgrymodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr mai diffyg amser oedd y rheswm pam na allen nhw weithio gyda phobl â'r profiad personol perthnasol, ond erbyn mis Awst roedd y cyfiawnhad a roddwyd yn adlewyrchu ehanger y rhesymau sy'n gyffredin dan amgylchiadau arferol. Yn aml, mae'r cyfiawnhad hwn yn dangos dealltwriaeth wallus o natur a gwerth cynnwys y cyhoedd, fel yr hawliad nad yw cynnwys cleifion a'r cyhoedd 'yn berthnasol gan fod yr ymchwil yn edrych ar staff ysbyty yn unig'.

Roedd rhywfaint ohono'n fwy cymysg, lle roedd pobl yn defnyddio dulliau anghonfensiynol neu'n adeiladu cynnwys y cyhoedd i mewn yn ddiweddarach, er nad oedden nhw wedi cael amser i weithio gyda'r bobl hyn mor gynnar ag y bydden nhw wedi hoffi gwneud:



**'Roedd hi'n bwysig bod yr ymchwil hon yn cynnwys lleisiau'r defnyddwyr gwasanaeth yng ngwaith dylunio'r ymchwil. Wrth wneud hyn, bu ymchwilwyr yn edrych ar blatfformau gwahanol fel ffrindiau, teulu, pobl o'u cydnabod a phlatfformau ar-lein i ddeall profiadau darpar gyfranogion'**



**'Nid yw cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a/neu eu gofalwyr, neu aelodau'r cyhoedd wedi'u cynnwys yn y broses ymchwil hyd yma. Byddwn ni'n cynnwys cyngorwyr cyhoeddus mewn dylunio a threfnu'r grwpiau ffocws gydag aelodau'r cyhoedd ac rydyn ni wedi cyllidebu ar gyfer cynnwys cyngorwyr cyhoeddus a thalu am eu hamser i fynychu digwyddiadau rhithwir a darllen ein hallbynnau i weld pa mor ddarllenadwy ydyn nhw'**

**'Oherwydd y pandemig byd-eang sy'n datblygu a chyflymder cychwyn ymchwil, nid yw cynnwys cleifion a'r cyhoedd wedi'i fabwysiadu mor eang ag mewn astudiaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Cyngori ar gynnwys y cyhoedd yn chwarae rhan a bydd yn ymuno â'r cyfarfodydd rheoli unwaith y bydd y treial yn dechrau a bydd yn chwarae rhan fwy, yn enwedig â lledaenu darganfyddiadau ac edrych ar ddogfennau ar gyfer cleifion.'**  
- Datganiadau a wnaed mewn ceisiadau am Gymeradwyaeth yr HRA a adolygwyd ym mis Awst 2020



Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut yr addasodd gwaith cynnwys y cyhoedd yn gyflym yn ystod ton gyntaf y pandemig COVID-19, ond roedd gwerth y gwasanaeth paru wrth gysylltu timau ymchwil â grwpiau cynnwys y cyhoedd hefyd yn dweud rhywbeth pwysig am wendidau yn y system ymchwil a oedd wedi caniatáu i waith cynnwys y cyhoedd fethu pan ddaeth y system dan bwysau dwys.

# Beth ydyn ni wedi'i ddysgu ynglŷn â chynnwys y cyhoedd yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus?

Mae cynnwys y cyhoedd yn un o ddilysnodau ymchwil o ansawdd uchel. Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol o'i werth ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, ond pan ddaeth y system honno dan bwysau fe ddioddefodd yn sylweddol.

Rydyn ni eisiau meddwl yn ofalus am pam i hyn ddigwydd fel ein bod yn gallu addasu i'r fath raddau fel bod rôl cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil yn gadarn, yn effeithlon ac yn effeithiol yn y dyfodol.

Er mwyn darparu sail ar gyfer hyn, gwnaethon ni gymryd nifer o gamau i adeiladu darlun o sut y mae gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU wedi gweithio'n ymarferol hyd yma:

- gwnaethon ni gynnal 16 cyfweiliad ansoddol ag ymchwilwyr a hwyluswyr cynnwys y cyhoedd a oedd a wnelo'n uniongyrchol â naill ai ceisio neu ddarparu cefnogaeth cynnwys y cyhoedd trwy'r gwasanaeth paru;
- gwnaethon ni ddadansoddi ystadegau cyfryngau cymdeithasol yr HRA ar gyfer cyfathrebiadau'r gwasanaeth paru;
- gwnaethon ni gymharu data IRAS o geisiadau COVID-19 ar gyfer Cymeradwyaeth yr HRA a gyflwynwyd ym mis Mawrth, mis Mehefin a mis Awst 2020 â sampl llinell sylfaen o fis Hydref 2019;

- gwnaethon ni adolygu adborth o'r gwasanaeth paru a dderbyniwyd oddi wrth randdeiliaid.

Gwnaethon ni ddarganfod bod bylchau cyfathrebu rhwng gwahanol randdeiliaid wedi effeithio'n drwm ar gynnwys y cyhoedd yn ystod pandemig, a arweiniodd at ddiffyg cyd-ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n ddichonol ac o fudd o ran cynnwys y cyhoedd yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus. Awgrymodd ein dadansoddiad ei bod yn bosibl sefydlu a chynnal safonau uchel ar gyfer cynnwys y cyhoedd, hyd yn oed mewn argyfwng, pan geir cydweithredu ar draws y system a negeseua clir. Fodd bynnag, gwnaeth yr adborth a dderbyniwyd ynglŷn â'r gwasanaeth paru hefyd gyfleu neges glir bod y pandemig wedi gwaethygu'r heriau a oedd eisoes yn bodoli yn y system cynnwys y cyhoedd.

# Themâu allweddol

Mae graddau cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil COVID-19 wedi gwella. Roedd yr effaith ar raddau cynnwys y cyhoedd ar ddechrau'r pandemig yn dangos:

## 1. Bwlch yn y cyfathrebu:

diffyg negeseua clir, cyson ar lefel uchel ynglŷn â chynnwys y cyhoedd, sy'n arwain at ragdybiaethau anghywir ynglŷn â natur, gwerth a dichonoldeb cynnwys y cyhoedd.

## 2. Bwlch yn y

**wybodaeth:** diffyg cyd-wybodaeth o ansawdd uchel ynglŷn â sut olwg sydd ar gynnwys y cyhoedd ledled y DU, sy'n cyfyngu ar ba mor effeithiol, cynhwysol ac amrywiol y mae'n gallu bod.

## 3. Bwlch yn y

**cydweithredu:** o ganlyniad i seilwaith heb ddigon o adnoddau, lle y mae rhanddeiliaid wedi'u hynysu oddi wrth ei gilydd, methir y cyfle i gydweithio i ddatblygu diwylliant ymchwil sydd â chynnwys y cyhoedd wrth ei galon.

## 4. Bwlch yn yr

**arweinyddiaeth:** diffyg cyfeiriad clir, ar draws sectorau ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn y DU.



# Y bwlch yn y cyfathrebu



**'Efallai fod yna achos dros ymgyrch ar y cyd â'r HRA a rhai arianwyr, er enghraifft i estyn y gwasanaeth paru, gan fy mod i'n meddwl ei fod wedi jest llenwi bwlch doedden ni ddim yn gwybod oedd yno tan i ni ei lenwi'** – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, sefydliad dielw annibynnol



Fis Ebrill, dywedodd y gymuned cynnwys y cyhoedd wrthon ni nad oedd noddwyr a thimau ymchwil yn cysylltu i drefnu cynnwys y cyhoedd mewn astudiaethau COVID-19 oherwydd eu bod yn tybio na fyddai cleifion a'r cyhoedd yn gallu addasu i weithio o bell neu'n unol â fframiau amser cyflymach. Yn wir, roedd llawer o grwpiau cynnwys y cyhoedd yn gyflym i sefydlu'r gallu i wneud hyn, ond parhaodd yr amgyffrediad hwn. Er enghraifft, ym mis Awst, datganodd ymgeisydd:



**'Mae'r pandemig COVID-19 sydd ohoni wedi cyfyngu ar gleifion a'r cyhoedd rhag ymweld â safleoedd ysbyty sydd, felly, yn atal cyswllt ystyrlon a defnyddiol â'n haelodau cynnwys cleifion a'r cyhoedd arferol'** – Ffurflen gais



Roedd y sefydliad a oedd yn noddi'r astudiaeth hon wedi sefydlu nifer o grwpiau cynnwys y cyhoedd rhithwir rhagweithiol a brwdfrydig a oedd â'r capasiti a'r cymhellant i ddarparu mewnbwn cyflym i ymchwil COVID-19, ond roedd yna fwlch yn y cyfathrebu rhwng y tîm ymchwil a'r gefnogaeth cynnwys y cyhoedd a oedd yno i'w helpu.

Un thema a ddaeth i'r fei o werthuso'r gwasanaeth paru oedd ei fod wedi helpu ymchwilwyr a grwpiau cynnwys y cyhoedd i lunio cysylltiadau a chydweithio mewn ffyrdd a oedd eisoes yn bosibl, ond bod yna fwlch eisoes yn bodoli yn y cyfathrebu neu'r cyd-ddisgwyliadau.



**'Cawson ni gyfle i gyfarfod â chydweithwyr sydd hyd yn oed ar yr un llawr oedd heb unrhyw syniad ein bod ni'n bodoli. Felly roedd hynny'n wych, ac ni fyddai wedi digwydd heb y gwasanaeth paru'** – Arweinydd Cynnwys y Cyhoedd Prifysgol/ GIG

**'Mae rhai o'r ymchwilwyr dwi wedi siarad â nhw wedi dweud 'oh, doeddwn i ddim yn gwybod bod eich swydd yn bodoli neu doeddwn i ddim yn gwybod bod eich rhwydwaith yn bodoli. Doeddwn i ddim yn sylweddoli y gallwn i gael cefnogaeth'** – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, sefydliad dielw annibynnol




Fe weithiodd y cydweithredu a wnaed i hybu'r gwasanaeth paru a'r negeseuon allweddol ynglŷn â chynnwys y cyhoedd. Yn ystod y cyfweiliadau dilynol â thimau ymchwil ac ymarferwyr cynnwys y cyhoedd a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth paru, dywedodd rhanddeiliaid eu bod wedi clywed am y gwasanaeth trwy nifer o sianeli roedden ni wedi'u dwyn at ei gilydd i rannu gwybodaeth graidd yn gyflym.

Yn y pen draw, pan wnaethon ni gydweithio i gyfleu'r neges ei bod yn bwysig cynnwys y cyhoedd bob amser, fe wrandodd pobl a gwneud pethau yn ei gylch.

“

**'Dwi'n meddwl bod cyfathrebu ynglŷn â gwerth cynnwys y cyhoedd yn broblem go iawn. Dwi'n meddwl bod yna lawer iawn o wybodaeth ar gael sy'n dweud hynny, a dydw i ddim yn gwybod sut i gael pobl (hynny yw uwch ymchwilwyr, yr arweinwyr, y bobl a ddylai fod yn dangos arfer cynnwys cleifion a'r cyhoedd hynod dda), dydw i ddim yn gwybod sut i'w cael i'w darllen' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG**

”



# Y bwlch yn y wybodaeth

Un o heriau sefydlu'r gwasanaeth paru oedd ei bod yn annhebygol bod grwpiau cynnwys y cyhoedd wedi casglu gwybodaeth am brofiad personol eu haelodau o COVID-19. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd paru ymchwilwyr â phobl oedd â phrofiad perthnasol o COVID-19 yn gyflym (lle roedd ymchwilwyr wedi gofyn am y profiad penodol hwnnw).

Roedd y gronfa ddata o grwpiau partneriaid y gwasanaeth paru'n cynnwys meysydd i gofnodi gwybodaeth am aelodau'r grŵp a oedd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol ar gyfer dod o hyd y gyfranwyr cyhoeddus â'r profiad personol perthnasol: ffactorau demograffig fel oedran ac ethnigrwydd, a phrofiad o gyflyrau neu sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol penodol.

Fodd bynnag, gwelwn ni nad oedd cyfran sylweddol o grwpiau'n cadw gwybodaeth ddemograffig am eu haelodaeth. Er enghraifft, dywedodd bron i draean o'r grwpiau nad oedd ganddyn nhw ddata ar ethnigrwydd eu haelodaeth, a oedd yn gryn her wrth geisio cysylltu ymchwilwyr a oedd yn ymchwilio i effaith COVID-19 ar boblogaethau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn benodol â'r bobl a allai gyfrannu orau at ddylunio'u hymchwil.

Gwnaeth partneriaid y gwasanaeth paru ddisgrifio'r straen y byddai casglu'r wybodaeth yn ei roi ar dimau sydd eisoes yn gweithio dan bwysau cyson, a phryderon ynglŷn â sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i rhannu yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Un o'r cyfleoedd pwysicaf i godi yn sgil y pandemig COVID-19 yw'r ffaith bod y sgwrs wedi helaethu ynglŷn ag effaith

anhydraddoldebau iechyd a gofal cymdeithasol ar ein cymdeithas. Mae'r system ymchwil yn rhan o'r peirianwaith sy'n adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r anhydraddoldebau hyn trwy ddiffyg mynediad teg a chynhwysiant o ran arweinyddiaeth, timau ymchwil, cyfranogi mewn ymchwil a chynnwys y cyhoedd. Yn aml, mae'n anodd meintioli'r anhydraddoldebau hyn yn fanwl gywir gan nad yw gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael ei chasglu na'i rhannu.

Mae'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yn cyfyngu ar ba mor effeithiol y gallwn ni gydweithredu ar draws y system iechyd ac ymchwil i wneud ymchwil yn fwy cynhwysol. Mae hefyd yn cyfyngu ar ba mor effeithiol y gallwn ni gyfathrebu natur a gwerth cynnwys y cyhoedd. Mae her dangos effaith cynnwys y cyhoedd er mwyn dylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau'n her gyfarwydd ar draws y system. Clywson ni oddi wrth randdeiliaid o bob rhan o'r byd ymchwil a oedd yn dangos diddordeb brwd mewn defnyddio'r wybodaeth sydd gan yr HRA am ymddygiad cynnwys y cyhoedd i wneud cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil yn weladwy a thryloyw, ac i ddylanwadu ar bobl i ymrwymo iddo a dylanwadu ar eu hymddygiad.

# Y bwlch yn y cydweithredu

Canlyniadau'r bwlch yn y cyfathrebu ac yn y wybodaeth yw anghysonderau a chyfleoedd sydd wedi'u colli ar gyfer cydweithredu a gweithio effeithlon ar draws y system ymchwil.

## Gweithio ar draws systemau

Nod yr HRA wrth sefydlu'r gwasanaeth paru yw hwyluso cynnwys y cyhoedd lle bo eisiau hynny ond lle nad yw wedi digwydd, yn hytrach na'i wneud yn orfodol neu gael mecanweithiau a phrosesau i ddisodli rhai sydd eisoes yn bodoli i gefnogi cynnwys y cyhoedd. O ganlyniad, yr unig ofyniad ar gyfer cael cefnogaeth trwy'r gwasanaeth yw bod ymchwilwyr naill ai heb unrhyw gefnogaeth eisoes ar gael iddyn nhw ar gyfer cynnwys y cyhoedd neu nad ydyn nhw'n gallu ei drefnu'n rhwydd hyd yn oed os oes ganddyn nhw gefnogaeth.

Yn ystod y cyfnod brysbennu, rydyn ni'n gofyn i ymchwilwyr am wybodaeth ac yn rhoi canllawiau ar arfer gorau cynnwys y cyhoedd, neu'n helpu i drefnu cysylltwyr sy'n cydweddu'n dda i'w hymchwil. Er enghraifft, rydyn ni'n gofyn a fydd timau ymchwil yn cynnig tâl i'r cyhoedd am eu cyfraniad ac yn nodi bod yr HRA yn ystyried hyn yn arfer da, ond nid yw cynnig tâl yn rhagofyniad i fod yn gymwys i gael eu rhoi mewn cysylltiad â chysylltwyr y rhwydwaith. Mae gan wahanol grwpiau ffyrdd gwahanol o weithio a pholisïau gwahanol ar dalu i'r cyhoedd am eu cyfraniad. Mae rhai yn galw am dâl, mae eraill yn gweithio o'u gwirfodd ac mae eraill yn gymysg eu hagwedd. Mae'r ffyrdd o gefnogi cynnwys y cyhoedd yn amrywio'n sylweddol, felly diben y wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani

yw helpu i wneud tasg partneriaid y gwasanaeth paru yn haws trwy fanylu ar y trefniadau digolledu a chefnogaeth arall sydd ar gael i'r tîm ymchwil.

Gwnaethon ni drafod y dull hwn o weithredu yn ein sgysiau ôl-gyswllt ag ymchwilwyr ac aelodau'r rhwydwaith a oedd a wnelo'n uniongyrchol â'r gwasanaeth. Un thema a ddaeth i'r amlwg oedd bod y cydweithredu ar draws systemau er mwyn hwyluso cynnwys y cyhoedd yn golygu cyfle i godi'r safonau ar gyfer ansawdd cynnwys y cyhoedd yn y DU trwy safoni a chynyddu'r gofynion sylfaenol ar gyfer arfer da wrth gynnwys y cyhoedd a thrwy godi ymwybyddiaeth o **Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil**.



'Os ydyn nhw eisiau ei wneud, yna mater ydy hyn o sefydlu canllawiau priodol, yntê? [...] rydyn ni wedi gorfod dweud, os ydych chi'n gwneud hyn a) mae'n rhaid ichi ei ariannu, b) mae'n rhaid ichi feddwl yn ofalus am yr hyn rydych chi ei eisiau, mae'n rhaid dod iddo'n agored eich meddwl ac mae'n rhaid ichi roi adborth iddyn nhw wedyn ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedd hyn' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG





'Mae'n teimlo fel petaen nhw'n disgwyl cefnogaeth ond nad ydyn nhw mewn gwirionedd yn barod i ariannu hynny mewn unrhyw ffordd neu nid oes unrhyw awgrym o sut y maen nhw'n mynd i ddelio ag aelodau'r cyhoedd, ac fel rhywun sy'n gweithio'n eithaf caled i gynnal perthynas dda â nhw, dwi'n teimlo braidd yn ochelgar ynglŷn â rhoi aelodau o'n panel rydyn ni'n gweithio'n eithaf caled i ddod o hyd iddyn nhw mewn cysylltiad â phobl fydd ddim yn gofalu amdany'n nhw.' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG



## Heriau logistaidd



'Dwi'n meddwl bod yna gysylltiad rhwng hyn a'r angen (a dwi'n dweud ei fod dal yn angen gan nad ydw i'n gweld unrhyw gamau mawr yn cael eu cymryd i gael newid mewn diwylliant ynglŷn â chynnwys cleifion a'r cyhoedd) am weld hyn fel rhywbeth mwy na rhyw ôl-ystyriaeth sef, yn anffodus, fy mhrofiad i o dros hanner y bobl dwi'n siarad â nhw.' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG



Nid yw'r HRA ei hun yn ariannu neu'n comisiynu ymchwil, ac mae ymchwilwyr yn ymgeisio am Gymeradwyaeth yr HRA yn gymharol hwyr yn y broses sefydlu astudiaeth, ar ôl sicrhau cyllid a nawdd. Mae hyn yn gallu golygu nad oes gan ymgeiswyr sy'n ceisio cyngor yr HRA fawr o hyblygrwydd i gyllidebu ar gyfer cynnwys y cyhoedd erbyn y maen nhw'n dod ar ein gofyn. Roedd y duedd hon hefyd i'w gweld yn achos ymchwilwyr sy'n ceisio cefnogaeth trwy'r gwasanaeth paru, er gwaethaf llinellau amser cyflymach.

Mae hyn yn un o'r rhesymau craidd dros fod angen cydweithredu ledled y system i sicrhau bod y negeseua'n glir ac yn gydgysylltiedig ynglŷn â'r hyn y mae integreiddio arfer gorau o ran cynnwys y cyhoedd i mewn i fusnes fel arfer yn ei olygu yn ymarferol.

Mae llawer o'r heriau logistaidd ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn galw am gyfathrebu a chynllunio cynnar i'w hatal rhag achosi oedi a dryswch yn ddiweddarach yn y broses ymchwil, neu gyfyngu ar effeithiolrwydd cynnwys y cyhoedd. Mae osgoi gwastraffu'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i wella trefniadau cynnwys y cyhoedd yn ddiweddarach yn y broses ymchwil o fudd i bawb:



'Dim ond rhan o'm swydd ydy hyn, felly does gen i ddim rhyw lawer o amser i'w dreulio arno.' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG

'Ysgrifennu cais am grant ydy bron iawn y peth mwyaf anodd dwi erioed wedi'i wneud; mae hi mor anodd rhoi sylw i bopeth a, gyda phob ewyllys da yn y byd, pan rydych chi'n jyglu'r cyllid, yn gorfod cael cymeradwyaeth ar gyfer eich adran Y&D, cael y protocol yn iawn... mae cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn llithro i lawr i o leiaf canol eich rhestr o flaenoriaethau, felly byddai unrhyw beth y gellir ei wneud i hwyluso hynny a sicrhau bod cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn wirioneddol ystyrlon, gyda chyn lleied o rwystrau â phosibl, yn hynod werthfawr.' – Ymchwilydd, y GIG





**'Un o'r pethau y mae pobl yn ei wneud wrth iddyn nhw heneiddio ydy meddwl tybed pa werth sydd ganddyn nhw. Felly bydd unrhyw un sy'n gofyn am help yn ei gael. Waeth beth fo hynny, neu pryd. Os alla' i, mi fydda' i. Os ydyn nhw'n dweud "Diolch yn fawr", gorau oll. Os fyddan nhw'n anghofio gwneud hynny, mae'n bosibl y bydda' i'n ailystyried y tro nesaf.'**  
– Cyfrannwr cyhoeddus



Nid oedd y rhan fwyaf o ymchwil a gefnogwyd trwy wasanaeth paru cynnwys y cyhoedd yn cynnig talu am amser a threuliau cyfranwyr cyhoeddus ac, yn ôl rheolwyr cynnwys y cyhoedd, ni dderbyniodd mwyafrif y cyfranwyr cyhoeddus unrhyw adborth ynglŷn ag effaith eu mewnbwn i'r astudiaeth.



**'Mae cyfranwyr cyhoeddus wedi hen arfer ag ymchwilwyr yn peidio â dod yn ôl atyn nhw, wyddoch chi? Er ein bod ni'n ceisio cael ymchwilwyr i wneud hynny, mae'n broblem gyffredin.'** – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, corff cyhoeddus cenedlaethol



Mae gan grwpiau cynnwys y cyhoedd a thimau ymchwil ffyrdd gwahanol o weithio, gwahanol fathau o brofiadau a lefelau gwahanol o hyder. Mae hwyluso cynnwys y cyhoedd yn galw am waith gofalus er mwyn bod yn effeithiol, cyfrinachol a llawn parch. Mae angen talu cyfranwyr cyhoeddus yn brydlon, ond mae prosesau llawer o adrannau cyllid yn anaddas i wneud hynny. Mae angen mynd ar drywydd adborth oddi wrth dimau ymchwil yn aml. Mae angen gwneud trefniadau cyfrinachedd.

Mae'r gwasanaeth paru wedi dibynnu ar gryn dipyn o ewyllys da ac ar barodrydd sefydliadau i groesi ffiniau cyfundrefnol i ddarparu cefnogaeth y naill i'r llall yn wyneb her iechedd cyhoeddus na welwyd mo'i bath o'r blaen. Mae rheolwyr cynnwys y cyhoedd wedi bod yn ffildio ac yn rheoli cyfleoedd cynnwys y cyhoedd ar gyfer eu grwpiau trwy nifer o sianeli yn ystod yr argyfwng COVID-19 a dyna pam ei bod mor bwysig bod proses y gwasanaeth paru mor ysgafn a syml â phosibl tra bo cysylltwyr partneriaid sy'n paru yn jyglo nifer o rolau a ffyrdd newydd o weithio eu hunain ac yn cefnogi eu haelodau yn ystod argyfwng.

Mae rhywfaint o seilwaith cynnwys y cyhoedd yn y DU wedi'i alinio'n agos â rhwydweithiau ariannu lleol, fel y gefnogaeth hynod werthfawr y mae Rhwydweithiau Ymchwil Glinigol yr NIHR yn ei darparu. Gofynnir i ymchwilwyr sy'n ymgeisio am gefnogaeth y gwasanaeth paru ble y maen nhw'n gweithio, ond mae gweithio o bell wedi gwneud y lleoliad daearyddol yn llai perthnasol o lawer. Ein nod yw paru pobl â grwpiau lleol lle bo'n bosibl, er mwyn iddyn nhw gael gwell cyfle i sefydlu cysylltiadau parhaus gyda grŵp ar gyfer y dyfodol, mewn cyd-destun ôl-COVID-19. Fodd bynnag, mae yna oblygiadau o ran ariannu a llywodraethu sydd ynghlwm ag, er enghraifft, grŵp cynnwys y cyhoedd â'i sail mewn elusen yn Southampton yn cefnogi tîm ymchwil GIG yn Sheffield, neu rwydwaith â'i sail yn Birmingham yn cefnogi ymchwil a ariennir yn fasnachol yn Llundain. Er hynny, mae gweithio o bell wedi estyn y gorwelion ar gyfer cynnwys y cyhoedd – o leiaf i'r bobl hynny y mae gweithio o bell yn hygyrch ac yn gynhwysol iddyn nhw.

# Y bwlch yn yr arweinyddiaeth

Daeth pwysigrwydd arweinyddiaeth wrth hybu ac amddiffyn cynnwys y cyhoedd i'r amlwg fel thema rymus trwy werthuso'r gwasanaeth paru.

Pwysleisiodd partneriaid y gwasanaeth paru effaith arweinyddiaeth glir, gyson ar newid mewn ymddygiad:



'Mae ei wneud yn rhan o rywbeth cenedlaethol yn golygu ei fod yn fwy teg i bobl. Dwi'n meddwl y bydd yn codi ei broffil ac yn gwneud iddo edrych fel rhywbeth sydd wedi'i gymeradwyo'n fwy helaeth.' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG

'Roeddwn i'n teimlo fel ceisio rhoi'r ymchwilydd hwnnw mewn cysylltiad ag un o'n panel ac yna roedd yn annerbyniol pan na wnaeth hyd yn oed ymateb – ond does yna fawr iawn y gallwch chi ei wneud am hynny, a dweud y gwir. Ond, i mi, os ydych chi fwy neu lai yn cydlynu'r cyfan dwi'n teimlo bod yna rwyd achub.' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG



'Os mai canlyniad hyn i gyd ydy bod yna bobl dda iawn yno sydd â llond gwlad o brofiad ac sy'n gallu'ch cyfarwyddo chi fel ymchwilydd neu sy'n gallu cynnig barn hynod werthfawr, yna dwi'n meddwl y bydd pobl yn fwy parod i chwarae rhan gan y bydd yn edrych yn fwy dibynadwy.' – Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, y GIG



Mae cynnwys y cyhoedd yn un o ddilysnodau ymchwil o ansawdd uchel; bydd arweinyddiaeth ar lefel uchel o ran gwerth cynnwys y cyhoedd yn hanfodol i'r DU allu gwireddu ei dyhead i ddatblygu fel arweinydd byd-eang ym maes ymchwil glinigol.

# Casgliadau

Sefydlwyd gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU mewn ymateb i'r gostyngiad sylweddol mewn cynnwys y cyhoedd â phrofiad personol perthnasol fel partneriaid ar gyfer astudiaethau a oedd yn rhoi sylw i COVID-19.

Mae adborth oddi wrth y bobl sydd a wnelo â sefydlu, rhedeg a defnyddio'r gwasanaeth wedi awgrymu mai'r prif reswm am hyn yw bod cynnwys y cyhoedd dal yn bell o fod wedi'i integreiddio'n llwyr fel rhan arferol o bob math o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Gellir delio â hyn trwy gael gwybodaeth well am y ffyrdd y mae gweithio mewn partneriaeth â'r cyhoedd yn gallu helpu ymchwil. Os ceir cydweithredu a chyfathrebu mwy effeithiol rhwng rhanddeiliaid ar draws pob sector, bydd hyn yn cefnogi cynnwys y cyhoedd yn fwy cyson mewn pob math o ymchwil.

Trwy ddod â'n partneriaid at ei gilydd o ledled y system ymchwil i roi sylw i heriau penodol hybu a chefnogi cynnwys y cyhoedd yn ystod y pandemig COVID-19, rydyn ni wedi dysgu nad yw'r system cynnwys y cyhoedd yn weladwy, yn hygyrch neu'n dryloyw.

Cenhadaeth yr HRA yw cefnogi ac annog y rheini sy'n gyfrifol am gynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn ymchwil i wneud hynny mewn ffyrdd gweladwy, cydgysylltiedig a syml; sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn fusnes fel arfer.

Mae'n hollbwysig bod â gwybodaeth o ansawdd uchel am gynnwys y cyhoedd. Mae ein partneriaid yn y gwasanaeth paru wedi dweud wrthon ni bod gwaith y gwasanaeth paru'n diwallu angen am gydlynw a rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i gynnwys y cyhoedd ac ynglŷn â sut y gall pobl ei chyrru.

Mae effaith gwendidau'r system cynnwys y cyhoedd i'w gweld fwyaf ar y rheini sy'n cael eu cynnwys leiaf mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth paru'n adeiladu ar gyfle i wneud cynnwys y cyhoedd yn fwy tryloyw, i'w rannu yn fwy helaeth a'i wneud yn fwy cymeradwy.



# Y camau nesaf

Os hoffech chi drafod yr adroddiad hwn â ni, a fydddech cystal ag anfon e-bost aton ni yn [public.involvement@hra.nhs.uk](mailto:public.involvement@hra.nhs.uk)

Rydyn ni o'r farn bod hybu cydweithredu, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ar draws y system cynnwys y cyhoedd yn rhywbeth ymarferol allweddol y gallwn ni ei wneud nesaf, sy'n adlewyrchu gwerthoedd, blaenoriaethau ac arbenigedd yr HRA.

Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i drafod sut y gall y gymuned cynnwys y cyhoedd ledled y DU gydweithio i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd.

Un o lwyddiannau'r gwasanaeth paru oedd rhannu gwybodaeth ar draws y system yn fwy tryloyw. Ein bwriad yw y bydd y gwasanaeth paru'n adnodd ar gyfer y gymuned cynnwys y cyhoedd. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn mae angen i ni fod â chyd-ddealltwriaeth glir o gwmpas a swyddogaeth yr adnodd hwnnw, ac o bwyl yn y system sydd yn y sefyllfa orau i arwain a rheoli'r gwaith. Mae ymchwilwyr yn dod ar ofyn yr HRA i gymeradwyo'u hastudiaethau yn hwyr yn y broses ymchwil, felly arianwyr a noddwyr ymchwil sy'n cefnogi ymchwil o ddechrau'r broses fyddai yn y sefyllfa orau i arwain yn hyn o beth.

Ein nod yw gweithio tuag at gefnogi arfer gorau cynnwys y cyhoedd yn ystyrlon fel ei fod yn fusnes fel arfer i bob noddwr ac ariannwr ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Ein hymrwymadau ar sail yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu am gynnwys y cyhoedd yn system iechyd a gofal cymdeithasol y DU yn ystod y pandemig COVID-19 yw:

**1. egluro'r hyn a ddisgwyllir o ran cynnwys y cyhoedd oddi wrth noddwyr ac arianwyr pob math o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol;**

- 2. archwilio opsiynau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth paru, gan gynnwys p'un a fyddai'n werthfawr ar gyfer cefnogi cynnwys y cyhoedd ym mhob agwedd ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, a nodi pwy fyddai yn y sefyllfa orau i arwain hyn a darparu adnoddau ar ei gyfer;**
- 3. hybu a chefnogi gwaith i gynnal cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil ar y lefelau uchel presennol;**
- 4. datblygu dulliau negeseuo clir ar draws systemau gyda'n cydweithwyr yn adrannau iechyd Gweinyddiaethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyda rhanddeiliaid eraill, i wella'r cyfathrebu ynglŷn â rôl cynnwys y cyhoedd yn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol y DU.**
- 5. nodi sut orau y gellir hybu ac atgyfnerthu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith cynnwys y cyhoedd yn y system ymchwil drwyddi draw;**
- 6. nodi pa wybodaeth am y system cynnwys y cyhoedd fyddai'r un mwyaf defnyddiol i'w chasglu a'i rhannu er mwyn galluogi mwy o gynnwys y cyhoedd o ansawdd uwch.**

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'n partneriaid ar draws y system ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU i fynd i'r afael â'r ymrwymadau hyn.

# Diolchiadau

Hoffen ni fynegi ein diolch a'n gwerthfawrogiad i'r bobl a'r sefydliadau a ganlyn, gan gynnwys pob un o'u cleifion a'u haelodau o'r cyhoedd, am eu hymwneud â datblygu a chefnogi gwasanaeth paru cynnwys y cyhoedd COVID-19 y DU.

- Alice Williams (GIG Lloegr a Gwella)
- Amanda Stranks (Canolfan Ymchwil Fiofeddygol Caergrawnt NIHR)
- Amy Rebane (Canolfan Ymchwil Fiofeddygol Leeds NIHR)
- Annie Amjad (Parkinson's UK)
- Bec Hanley (Grŵp Cynnwys Ymchwil Elusennau)
- Caroline Schmutz (JDRE, yr elusen diabetes math 1)
- Duncan Barron (Canolfan Ymgysylltu Cyhoeddus (CPE), Cyd-gyfadran Kingston a St. George, St. George's, Prifysgol Llundain)
- Jahanara Miah (Prifysgol Manceinion)
- Jenny Robertson (Cymdeithas Sglerosis Ymledol)
- Jeremy Taylor a Zoe Gray (Canolfan Ymgysylltu a Lledaenu (CED) yn y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR))
- Jon Cole, Doreen Tembo a Caroline Hillier (Canolfan Cydlynu Gwerthusiadau, Treialon ac Astudiaethau NIHR (NETSCC))
- Kate Frost (Yr Adran Ymchwil ac Arloesi yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham)
- Lucy Wasinski (Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Addysgu Sheffield)
- Margaret O'Hara (Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Birmingham)
- Maryrose Tarpey (Cynghrair James Lind)
- Olivia Joseph (Canolfan Ymchwil Drosiadol Diogelwch Cleifion (PSTRC) Swydd Efrog a Humber)
- Polly Kerr (Canolfan Ymchwil Fiofeddygol Rhydychen NIHR)
- Rebecca Burns (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru)
- Ruth Stafferton (Ymchwil Canser y DU)
- Sally Grier (Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Bryste)
- Sarah Fahle (Uned Ymchwil Gwaed a Thrawsblaniadau mewn Iechyd Rhoddwyr a Genomeg NIHR, Prifysgol Caergrawnt)
- Sinduja Manohar (Ymchwil Data Iechyd y DU)
- Steven Blackburn (Gwasanaeth Dylunio Ymchwil NIHR, ac Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Keele)
- Cynnwys y Cyhoedd i Gyfoethogi Ymchwil (PIER) Gogledd Iwerddon (Is-adran Y&D HSC, Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus, Gogledd Iwerddon)
- Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain
- Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Canser (NCRI)

# Atodiad

## Rhwydwaith Cynnwys y Cyhoedd COVID 19 y DU Ffurflen ceisio cefnogaeth (er gwybodaeth yn unig)

Ydych chi'n cynllunio neu'n cynnal ymchwili iechyd a gofal cymdeithasol COVID-19? A fyddai cynnwys cleifion a/ neu'r cyhoedd o fudd i'ch ymchwili? Os felly, llenwch y ffurflen hon fel ein bod yn gallu helpu i'ch rhoi mewn cysylltiad â phobl sy'n gallu helpu.

Os oes yna adrannau rydych chi'n ansicr amdany'n nhw, gallwn ni drafod hyn â chi dros y ffôn i'ch helpu i benderfynu ar y math iawn o gynnwys y cyhoedd ar gyfer eich astudiaeth chi. E-bostiwch y ffurflen hon i [public.involvement@hra.nhs.uk](mailto:public.involvement@hra.nhs.uk) a byddwn ni'n cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.

(Mae'r ffurflen hon er gwybodaeth yn unig)

### Eich manylion cyswllt

Enw

Sefydliad

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

- Rydw i'n cytuno bod yr HRA yn cael defnyddio'r manylion hyn i gysylltu â mi
- Rydw i'n cytuno y ceir rhannu'r wybodaeth yn y ffurflen hon â grwpiau cynnwys y cyhoedd a allai o bosibl helpu â'r ymchwili hon

### Gwybodaeth am eich ymchwili

Teitl byr yr astudiaeth

**Rhowch grynodedb byr o'ch ymchwili mewn iaith glir (300 o eiriau ar y mwyaf). Cynhwyswch beth y mae'r ymchwili yn ceisio'i ddarganfod, beth fydd y prif feini prawf cynhwysiant ar gyfer cyfranogion a phwy y bwriedir i'r ymchwili fod o fudd iddyn nhw.**

I gael canllawiau ar ysgrifennu crynodebau ymchwili mewn iaith glir, gwelwch **y wefan hon**.

## A oes angen Cymeradwyaeth yr HRA ar gyfer yr astudiaeth hon?

Os ydych chi'n ansicr, gwelwch <http://www.hra-decisiontools.org.uk/research/> a <http://www.hra-decisiontools.org.uk/research/docs/DefiningResearchTableOct2017-1.pdf>

- Oes
- Nac oes

ID IRAS (os ar gael)

## Pa gam o broses Gymeradwyo'r HRA y mae'r ymchwil ynddo?

- Nid oes angen Cymeradwyaeth yr HRA ar ei chyfer
- Nid yw wedi'i chyflwyno i'r HRA trwy IRAS hyd yma
- Mae wedi'i chyflwyno ond nid yw wedi cael Cymeradwyaeth yr HRA hyd yma
- Mae wedi derbyn Cymeradwyaeth yr HRA

Os ydych chi'n ansicr a oes angen Cymeradwyaeth yr HRA ar gyfer eich prosiect ai peidio, gwelwch ein [hofferyn penderfynu](#) a [sut rydyn ni'n diffinio ymchwil](#)

Os nad ydych chi wedi cyflwyno'ch ymchwil i'r HRA hyd yma, gwelwch ein [canllawiau](#) ynglŷn â sut i gofnodi gwybodaeth am gynnwys y cyhoedd yn ffurflen IRAS a'r canllawiau ychwanegol ar ddiwedd y ffurflen hon.

## Cynnwys y cyhoedd yn eich ymchwil

Os nad ydych chi'n sicr ynglŷn â'r atebion i'r cwestiynau yn yr adran hon, mae Tîm Cynnwys y Cyhoedd yr HRA yn gallu helpu.

E-bostiwch y ffurflen hon i [public.involvement@hra.nhs.uk](mailto:public.involvement@hra.nhs.uk) a byddwn ni'n cysylltu â chi cyn gynted â phosibl i drafod pa fath o gynnwys y cyhoedd sy'n iawn ar gyfer eich ymchwil chi.

**Sut y bydd gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd yn helpu'ch ymchwil e.e. ydych chi'n anelu at ei gwneud yn fwy derbyniol i ddarpar gyfranogwyr, gwella effeithiolrwydd y deunyddiau ar gyfer cyfranogwyr, ac ati?**

**Oes gennych chi gysylltiadau yn barod â grwpiau neu rwydweithiau cynnwys y cyhoedd?**

- Oes
- Nac oes

**Beth fydddech chi'n hoffi i gyfranwyr cyhoeddus ei wneud? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- Cyfrannu at ddiffinio ffyrdd i fesur deilliannau
- Helpu i ddatblygu gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr
- Ymuno â phwyllgor/ grŵp llywio
- Mynychu grŵp ffocws (unwaith ac am byth)
- Cwblhau holiadur
- Adolygu a gwneud sylwadau ar adnoddau
- Adrodd hanes eu profiadau
- Mynychu digwyddiad
- Arall – rhowch fanylion yn y gofod isod:

**Pa brofiad personol perthnasol ddylai cleifion a'r cyhoedd sydd eisiau cael eu cynnwys feddu arno?**

**Faint o bobl ydych chi eisiau gweithio â nhw?**

**Erbyn pryd fydddech chi'n hoffi mewnbwn pobl?**

**A fyddwch chi'n cynnig unrhyw dâl neu ysgogiad i bobl sy'n cael eu cynnwys yn eich ymchwil?**

Byddwn

Na fyddwn

**A fyddwch chi'n ad-dalu unrhyw dreuliau a ddaw i ran pobl?**

Byddwn

Na fyddwn

**A fyddwch chi'n darparu adborth i'r bobl y byddwch chi'n gweithio â nhw ynglŷn â sut y mae eu mewnbwn wedi helpu'ch ymchwil?**

Byddwn

Na fyddwn

**A fyddwch chi'n gwahodd adborth oddi wrth y bobl y byddwch chi'n gweithio â nhw ynglŷn â'u profiad o weithio gyda chi?**

Byddwn

Na fyddwn

**Byddwn ni'n gofyn ichi am adborth ar y gwasanaeth paru ac effaith cynnwys y cyhoedd yn eich ymchwil yn ddiweddarach.**

Unrhyw sylwadau eraill

# Canllawiau ar sut i roi gwybod i Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) sut rydych chi'n gweithio gyda'r cyhoedd yn eich ymchwil i roi sylw i faterion sy'n berthnasol i'w hadolygiad moesegol o'ch cynnig.

## **Cwestiwn A14-1, y cwestiwn sy'n bodoli ynglŷn â chynnwys y cyhoedd.**

Disgrifiwch yma [yn y blwch testun rhydd] y bobl a gynhwyswyd mewn dylunio'r astudiaeth a'r ffyrdd y gwnaed hyn. Cynhwyswch y niferoedd dan sylw a'r hyn y buon nhw'n ei wneud yn ogystal â'r profiad roedden nhw'n ei gynnig i'r astudiaeth a pham fod hynny'n berthnasol. Hefyd, cynhwyswch wybodaeth am yr hyn y bydd y bobl a gynhwysir yn ei wneud i helpu â chynnal, rheoli a/ neu ledaenu darganfyddiadau'r astudiaeth.

Diben hyn yw esbonio i'r REC amrywiaeth y mewnbwn a sut y mae'n briodol i'r astudiaeth ac yn fwy uniongyrchol berthnasol nag y mae mewnwelediadau'r rhan fwyaf o aelodau'r REC yn debygol o fod.

Yn achos pob un o'r cwestiynau isod, cynhwyswch sut y mae'r bobl a ddisgrifir yn A14-1 wedi helpu i roi sylw i'r materion roedd y cwestiwn yn eu codi a sut y defnyddiwyd hynny naill ai wrth ddylunio'r astudiaeth neu yn y ffordd o'i chynnal, ei rheoli a'i lledaenu.

## **Cwestiwn A6-2, sy'n gofyn i ymgeiswyr roi crynodeb o'r prif faterion moesegol a chyfreithiol a materion yn ymwneud â rheoli sy'n codi o'u hastudiaeth a dweud sut y rhoddwyd sylw iddyn nhw.**

Mae'n ddefnyddiol dangos i'r REC eich bod wedi gweithio gyda phobl â phrofiad perthnasol o'r materion moesegol sy'n

debygol o fod yn bwysig i ddarpar gyfranogwyr, neu wedi ceisio cyngor y bobl hyn, a dangos sut y mae'r pethau y maen nhw wedi'u dweud wedi darparu sail ar gyfer eich dull o fynd ati i roi sylw i'r materion hyn.

## **Cwestiwn A13, sy'n gofyn am grynodeb o'r dyluniad a'r dulliau, er mwyn egluro beth yn union fydd yn digwydd i gyfranogwyr yr ymchwil, sawl gwaith, ac ym mha drefn.**

Mae'n ddefnyddiol dangos i'r REC bod pobl â phrofiad perthnasol yn meddwl y bydd cyfranogwyr yn deall ac yn derbyn yr hyn a fydd yn digwydd iddyn nhw yn yr astudiaeth.

## **Cwestiwn A22, sy'n gofyn i ymgeiswyr beth yw'r risgiau a'r pwysau posibl i gyfranogwyr a sut y byddan nhw'n sicrhau eu bod mor fach â phosibl.**

Mae'n ddefnyddiol dangos i'r REC bod pobl â phrofiad perthnasol yn meddwl bod y risgiau a'r pwysau, gan gynnwys y trefniadau ymarferol, yn debygol o fod yn dderbyniol i ddarpar gyfranogwyr.

## **Cwestiwn A30-1, ynglŷn â chael cydsyniad deallus.**

Mae'n arfer da cynnwys cleifion, gofalmwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau perthnasol o'r cyhoedd mewn cynhyrchu'r Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr, y ffurflen gydsynio ac unrhyw wybodaeth arall ar gyfer cleifion. Bydd yn ddefnyddiol

dangos manylion sut y gwnaed hyn i'r REC. Gallai hyn hefyd gynnwys sut y dylanwadodd cynnwys y cyhoedd ar lunio'r broses gydsynio.

### **Cwestiwn A51, ynglŷn â lledaenu'r canlyniadau.**

Mae Pwyllgorau Moeseg Ymchwil o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod canlyniadau'r astudiaeth ar gael ac maen nhw'n gweld rôl i'r cyhoedd mewn helpu i wneud hyn yn dda, mewn ffordd sy'n hygyrch i nifer o gynulleidfaoedd.

### **Mynychu cyfarfod y REC.**

Mewn rhai achosion, fe allai fod yn ddefnyddiol i chi pe bai un o'r bobl fu'n gweithio gyda chi i ddylunio'r astudiaeth yn gallu mynychu cyfarfod y REC gyda chi (naill ai yn y cnawd, dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo) i helpu i esbonio i'r REC sut a pham fod dyluniad yr astudiaeth yn debygol o fod yn dderbyniol i ddarpar gyfranogwyr.